Mentrau laith Cymru

Adroddiad Blynyddol 2015-16

Gorffennaf 2016

Cynnwys

Adroddiad y Cadeirydd	3
Adroddiad Blynyddol Mentrau Iaith Cymru	4
1. Cefndir	4
2. Gwybodaeth Gyffredinol	5
3. Gweithgareddau	6
4. Ariannol	13
5. Casgliadau	14
6. Atodiadau	15

Adroddiad y Cadeirydd

Mae fy ail flwyddyn fel Cadeirydd Mentrau Iaith Cymru wedi bod yn un eithaf heriol. Fel y gwyddoch fe gafwyd adroddiad gan Brifysgol Caerdydd y flwyddyn flaenorol wnaeth sicrhau mwy o gyllid i'r Mentrau ac i rwydwaith Mentrau Iaith Cymru.

Er gwaethaf hyn, yn dilyn toriadau yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, wynebwyd bygythiad go iawn i gyllideb y Mentrau a rhwydwaith Mentrau Iaith Cymru.

Llwyddwyd i ddiogelu cyllidebau'r Mentrau lleol ond yn anffodus, ni llwyddwyd i ddiogelu cyllideb Mentrau Iaith Cymru i'r un raddau. Llwyddwyd fodd bynnag i ddiogelu'r swyddi, a hynny yn fy marn i, yw un o brif asedau Mentrau Iaith Cymru.

Bu'n gyfnod o newid wrth i'r hen law Iwan Glyn ein gadael i ddatblygu cwmni ei hun ymhellach a hynny ar ôl degawd o waith diflino dros y Mentrau Iaith. Mae'n bwysig cofio, pan ddechreuodd Iwan yn ei waith nid oedd gan MIC gefnogaeth ariannol ond trwy gyfraniadau'r mentrau iaith unigol.

Er gwaethaf yr heriau i'n cyllid, credaf fod rhwydwaith cefnogol MIC wedi dangos cynnydd sylweddol eleni yn y gwaith hollol ymarferol o gefnogi'r Mentrau. Drwy gydlynu ymgyrchoedd llwyddiannus fel Ymgyrch Y Bêl a Ras yr Iaith; trefnu hyfforddiant neu gynnig cymorth wrth baratoi ceisiadau ariannol newydd fel cynllun y farchnad lafur efo Prifysgol Aberystwyth, gwn y bydd Mentrau Iaith Cymru yn gaffaeliad mawr i'r mentrau yn y dyfodol.

Wrth edrych tua'r dyfodol a hynny ar drothwy cyhoeddi Strategaeth Iaith newydd fydd â ffocws ar greu 1,000,000 o siaradwyr Cymraeg newydd, mae'n hanfodol ein bod ni'n ateb yr her hefyd a chreu 1,000,000 o ddefnyddwyr y Gymraeg.

Wrth drosglwyddo'r gadeiryddiaeth, rwy'n teimlo bod yr hyn sydd gennym ar y gweill yn bur gyffrous.

Gwelwn am y tro cyntaf eleni, ddatblygu portffolio o'n holl waith fydd yn ffordd inni ddenu mwy o gefnogwyr ac o wirfoddolwyr; gwelwn gynhadledd flynyddol ar ei newydd wedd fydd yn fwy nag erioed o'r blaen a gwelwn ddatblygiad ceisiadau arloesol i'n harwain i weithredu mewn meysydd newydd.

Trwy dynnu at ein gilydd a dangos grym ein rhwydwaith gallwn gyflawni bethau mawr a sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg.

Meirion Llewelyn Davies

Cadeirydd

Adroddiad Blynyddol Mentrau Iaith Cymru

Y Mentrau Iaith

Mae'r Mentrau Iaith yn cynyddu defnydd o'r Gymraeg wrth gefnogi'r Mentrau Iaith i hyrwyddo'r iaith yn ein cymunedau ar draws Cymru. Mae'r Mentrau Iaith yn unigryw, yn gyrff lleol, cymunedol wedi eu sefydlu gan wirfoddolwyr sy'n cydweithio gyda'u swyddogion cyflogedig i gynnal ystod eang o weithgareddau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a chryfhau'r defnydd ohoni yn eu cymunedau.

Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth yn 1991 gan unigolion lleol oedd am hybu'r Gymraeg a chryfhau seiliau'r iaith yng nghymunedau'r ardal. Yn y blynyddoedd ar ôl hynny bu galw am Fentrau tebyg mewn ardaloedd eraill ledled Cymru, gyda rhai Mentrau Iaith yn cynorthwyo i sefydlu Mentrau Iaith eraill, yn rhannu gwybodaeth a phrofiadau rhwng staff y Mentrau Iaith. Bellach mae yna 23 Menter Iaith sy'n gwasanaethu pob rhan o Gymru.

Y Mentrau Iaith: Ffeithiau Allweddol

- 23 Menter Iaith yng Nghymru
- 106 aelod o staff llawn amser
- 423 aelod o staff rhan amser neu achlysurol
- 930 o wirfoddolwyr
- 3800+ o weithgareddau bob blwyddyn
- 160,000+ o gyfranogwyr bob blwyddyn

Mae'r Mentrau Iaith yn cyfrannu dros £6.4m i economi Cymru bob blwyddyn. Mae'r Mentrau Iaith yn derbyn grant gwerth £2.3m gan Llywodraeth Cymru ac yn codi £4.1m o ffynonellau ariannol eraill. Mae Llywodraeth Cymru felly yn cyfrannu gwerth 36% i'n hincwm blynyddol.

Mentrau Iaith Cymru: Cefndir a Datblygiad

Yn sgil y cydweithio a chydweithrediad gan y Mentrau lleol sefydlwyd Mentrau Iaith Cymru (MIC) yn 1999 gan y Mentrau Iaith lleol gan fod yr angen wedi ei adnabod i gyfarfod yn rheolaidd, rhannu profiadau a gwybodaeth a rhoi enw a phroffil i'r Mentrau Iaith gyda'i gilydd. Bu cyfnod o waith di-dor gan wirfoddolwyr a staff y Mentrau Iaith lleol i sefydlu MIC fel mudiad cenedlaethol.

Fe ddatblygodd gwaith MIC yn gyson rhwng 1999 a 2015, gan gyflogi Swyddog Datblygu yn 2004 a Chydlynydd Cenedlaethol yn 2012. Ym mis Ionawr 2015, llwyddodd y Mentrau Iaith i ddenu cefnogaeth ariannol bellach gan Lywodraeth Cymru. Roedd y datblygiad allweddol hwn wedi galluogi MIC i benodi dau swyddog newydd i ymuno â'r tîm, sef Swyddog Marchnata a Chyfathrebu a Swyddog Hyfforddiant.

Yn ystod 2015-16 fe gydlynodd y tîm o bedwar y lefel uchaf o wasanaeth a gweithgareddau i gefnogi'r Mentrau iaith fel nas cafwyd erioed o'r blaen.

2. Gwybodaeth Gyffredinol

2.1 Aelodaeth

Mae pob Menter Iaith yn aelod o Mentrau Iaith Cymru. Mae'r Mentrau Iaith yn enwebu unigolion i'w cynrychioli yn ein cyfarfodydd cenedlaethol, yn staff neu gwirfoddolwyr.
Mae ein Pwyllgor Gweithredu gyda aelodaeth wedi eu ethol mewn cyfarfod cenedlaethol i gymryd penderfyniadau ar ran yr aelodau rhwng cyfarfodydd. Mae dau gynrychiolydd o'r tri rhanbarth ar y pwyllgor gweithredu.

2.2 Cyfarfodydd Cenedlaethol

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod cenedlaethol i'r Mentrau yn ystod y flwyddyn ariannol o dan gadeiryddiaeth Meirion Davies.

Bu cefnogaeth parod yr aelodau yn gymorth mawr o safbwynt cwblhau tasgau Mentrau Iaith Cymru. Diolch arbennig i'r Swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd rheolaidd o'r pwyllgor rheoli, rydym hefyd yn trefnu cyfarfod cenedlaethol i Swyddogion Maes y Mentrau Iaith i gael cyfle i rannu arfer da, gwybodaeth am brosiectau llwyddiannus a llawer mwy.

3. Gweithgareddau MIC 2015-16

Mae gwaith Mentrau Iaith Cymru, a'r gweithgareddau a gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r rhwydwaith o Fentrau, wedi cynyddu a datblygu yn sylweddol yn ystod 2015-16. Wrth gefnogi'r Mentrau rydym wedi gosod seilwaith cadarn iddynt ddatblygu a chydweithio yn agosach a'i gilydd. Gweler isod, grynodeb o'n prif weithgareddau yn ystod y flwyddyn.

Hyfforddiant

Manteisiodd pob Menter ar y cyfle i fynychu hyfforddiant MIC yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd 5 cwrs dros 11 sesiwn i ddarparu 183 o lefydd yn y sesiynau hyfforddi. Pynciau'r sesiynau oedd: Mesur Canlyniadau, Grantiau a Ffynonellau Arian, Gloywi Iaith, Iechyd a Diogelwch ac Asesu Risg a Polisi a Chynllunio Iaith.

Mynychodd 84 unigolyn gwahanol yr hyfforddiant ar gael.

Roedd 98% o fynychwyr yr holl sesiynau'n cytuno neu cytuno'n llwyr â'r datganiad *"Bydd yr wybodaeth a ddysgais yn ystod y sesiwn yn ddefnyddiol imi yn y dyfodol".*

Cyfarfod Cenedlaethol Swyddogion Maes

Mynychodd 37 swyddog o 19 Menter y cyfarfod yn Aberystwyth ym mis Medi 2015 a oedd yn cynnwys sesiynau ar bynciau megis Marchnata, Y Safonau, Gwefan y Gymraeg a Gweithio efo'n Gilydd.

Cynadleddau

Cynhaliwyd cynhadledd i Prif Swyddogion a Chadeiryddion y Mentrau ar 18fed a 19eg o Dachwedd 2015 yng Nghanolfan Soar ym Merthyr. Roedd 34 yn bresennol yn y gynhadledd a chynrychiolaeth o bob un menter yno.

Prif thema'r Gynhadledd oedd Esblygu Gyda'n Gilydd, gyda phwyslais arbennig yn cael ei osod ar rannu syniadau., cyd-weithio a datblygu rôl y prif swyddog.

Cafwyd sesiynau amrywiol megis *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned, Hybu Gwirfoddoli Drwy'r Mentrau, Mewnrwyd Newydd y Mentrau, Rôl y Prif Swyddog a Rôl y Cadeirydd / Pwyllgor ac Edrych Tua'r Dyfodol.*

Yn dilyn y gynhadledd gofynnwyd i'r prif swyddogion p'un a wnaeth y gynhadledd eu hysgogi i wneud rhywbeth yn wahanol yn y gwaith, dywedodd 82% o'r ymatebwyr fod y gynhadledd WEDI gwneud iddynt wneud pethau'n wahanol

Cynhaliwyd cynhadledd i Swyddogion y Mentrau ar yr 2il a'r 3ydd o Chwefror 2016 yng Nghanolfan newydd Yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd. Cafwyd cynrychiolaeth gan 21 Menter

Iaith gyda 36 o staff a swyddogion yn mynychur. Yn brif thema i'r gynhadledd oedd *"Y Gymraeg, y Mentrau a Fi - esblygu gyda'n gilydd."*

Cafwyd sesiynau ar bynciau amrywiol megis: *Rhannu Llwyddiannau, Y Digwyddiadu'r a thudalen apiau gwefan Cymraeg, Marchnata, Pwyllgorau Ardal, Gwneud y Dweud, Segmentu Cynulleidfa, Tafwyl, Clybiau Ieuenctid Cymraeg a Chynlluniau gweithredu personol.*

Roedd 96% o'r mynychwyr yn Cytuno gyda'r datganiad: "Derbyniais wybodaeth newydd yn y gynhadledd"

Marchnata a Chyfathrebu

Datblygwyd a gweithredwyd strategaeth Farchnata a Chyfathrebu dros y flwyddyn diwethaf gan ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol. At perwyl yr adroddiad hwn canolbwyntir ar y meysydd isod.

Marchnata Digidol

Datblygwyd a gweithredwyd strategaeth farchnata digidol er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau'r Mentrau gyda'r nod o gynyddu'r nifer sy'n ymwneud â'r Mentrau Iaith ar y we, codi proffil gwaith y Mentrau Iaith yn ogystal ag hysbysu pobl am brosiectau a digwyddiadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Amlinellir rhai o brif gyflawniadau'r strategaeth isod:

Gwefan Newydd

Lansiwyd gwefan newydd www.mentrauiaith.cymru. Gwnaeth dros **60,000** o bobl ymweld â'r wefan yn 2015/16. Rhannwyd templed y wefan gyda 23 Menter Iaith gyda 6 Menter Iaith yn manteisio ar y cyfle i ddiweddaru'u gwefannau gyda'r dempled newydd.

Facebook

Gwelwyd cynnydd o **975** o bobl yn hoffi tudalen Facebook MIC yn 2015/16. Cafwyd cynnydd hefyd yng nghyfartaledd cyrhaeddiad ein postion Facebook o **213** ym mis Ebrill 2015 i **1,900** ddiwedd mis Mawrth 2016.

Twitter

Cafwyd cynnydd o **1175** yn nifer y dilynwyr ar Twitter yn ogystal â chynyddu cyrhaeddiad cyfartalog negeseuon Twitter o **1.8 mil** o argraffiadau ym mis Ebrill 2015 i **2.7** mil ddiwedd Mawrth 2016.

Instagram

Datblygwyd presenoldeb ar Instagram ddiwedd y flwyddyn ym mis Mawrth gan ddenu **139** o ddilynwyr newydd mewn mis.

Cyfathrebu Mewnol

Mae atgyfnerthu strwythurau cyfathrebu mewnol y rhwydwaith wedi bod yn un o flaenoriaethau'r mudiad dros y flwyddyn diwethaf.

Cylchlythyr y Mentrau
Ailwampiwyd ac integreiddiwyd cylchlythyr misol y Mentrau Cyswllt yn llawn â gwefan Mentrau Iaith Cymru. Cyhoeddwyd 11 rhifyn o'r cylchlythyr yn 2015/16 a chynhwyswyd adrannau newydd yn rhoi gwybodaeth am swyddi gwag a chyfleoedd o fewn y Mentrau, ymgynghoriadau newydd yn ogystal ag adrannau rhannu arfer da 'O'm Mhrofiad i'.

Cafwyd cynnydd yng nghyfartaledd darllen y cylchlythyr o **28.9%** o holl staff a gwirfoddolwyr y Mentrau yn ei ddarllen ym mis Ebrill 2015 i **38.6%** ym mis Mawrth 2016 - mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd diwydiant sy'n 18.2%.

Mewnrwyd y Mentrau
Lansiwyd Mewnrwyd newydd y Mentrau ym mis Chwefror 2016. Mae'r fewnrwyd yn adnodd sydd wedi'i ddatblygu i holl aelodau staff y Mentrau iaith i rannu dogfennau ac arfer da.

Cynhaliwyd holiadur i ddefnydd staff a swyddogion y Mentrau o'r fewnrwyd newydd ym mis Mawrth ac i gasglu barn staff am sut hoffent weld y fewnrwyd yn cael ei ddatblygu i'r dyfodol. Gellir gweld rhai o ganlyniadau'r holiadur isod:

●Canfu'r arolwg bod 62.50% o staff y mentrau yn ymweld â'r fewnrwyd yn wythnosol.
●Roedd 96.9% o bobl wedi dweud bod y fewnrwyd yn adnodd defnyddiol neu ddefnyddiol iawn.

Cronfa Ddata Cysylltiadau
Ochr yn ochr â datblygu'r fewnrwyd datblygwyd cronfa ddata staff canolog i'w gynnwys ar y fewnrwyd yn cynnwys manylion cyswllt a theitlau swydd staff. Yn ogystal â hyn datblygwyd rhestrau e-bostio newydd er mwyn targedu negeseuon at ein cynulleidfaoedd yn well.

Presenoldeb yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Caerffili a'r Cyffuniau 2015
Ar y cyd â Menter Iaith Sir Caerffili cynhaliasom stondin yn Eisteddfod yr Urdd rhwng 25 - 30ain o Fai 2015. Dosbarthwyd nwyddau marchnata newydd MIC a nwyddau #pethaubychain i ymwelwyr er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o'r llu o weithgareddau a phrosiectau cymunedol a drefnir gan y Mentrau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws Cymru.

Daeth dros **1900** o ymwelwyr i'r stondin yn ystod yr wythnos, gyda oddeutu **700** ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau.

Ymwelodd y Prif Weinidog â'r stondin er mwyn trafod gwaith y Mentrau ar draws Cymru, gwaith MIC yn cefnogi'r Mentrau a hefyd gwaith a phrosiectau Menter Caerffili.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru Maldwyn a'r Gororau 2015
Trefnwyd presenoldeb llwyddiannus iawn i'r Mentrau yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni trwy gydweithio'n agos â Menter Iaith Maldwyn a'r Mentrau eraill. Penderfynwyd canolbwyntio ar ddathlu tafodiaith fel thema i'r wythnos a chydweithiom ag artist preswyl i arwain gweithdai celf, gydag unigolion yn darlunio eu hoff geiriau tafodieithol ar bapur bro anferth a chreu mygydau tafod. Yn ogystal â hyn cofnodwyd sgyrsiau unigryw yn y bwth tafodiaith ac mae'n fwriad gan y fenter leol i ddefnyddio rhain i ddatblygu prosiect yn y dyfodol agos.

Daeth oddeutu **2210** o ymwelwyr i'r stondin, gyda **915** ohonynt yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau.

Ymgyrchoedd Marchnata

#Joia
Lansiwyd ymgyrch farchnata digidol #joia yn Eisteddfod yr Urdd, Caerffili a'r Cyffuniau, ymgyrch oedd yn annog pobl o bob oedran i ddatgan eu bod yn mwynhau byw a hynny'n Gymraeg. Defnyddiwyd yr ymgyrch #joia, ynghŷd ag ymgyrch #pethaubychain, fel themau i holl weithgareddau'r wythnos ac yn ystod yr wythnos honno fe lwyddwyd i dynnu dros 500 o luniau a denu dros **100** o hoffion ar ein tudalen Facebook a **250** o ddilynwyr newydd ar Twitter.

Ymgyrchoedd Cymraeg Llywodraeth Cymru
Rydym wedi cynorthwyo Adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru wrth hyrwyddo ymgyrchoedd #PethauBychain #DyddMiwsigCymru, #CmonCymru a #HerMisMawrth, amlinellir isod y gweithgareddau i gefnogi pob ymgyrch unigol:

Pethau Bychain
Rydym wedi hyrwyddo negeseuon allweddol Ymgyrch Pethau Bychain yn ogystal â rhannu negeseuon a chyfrannu at hyrwyddo'r ymgyrch fel elfen ganolog o'n gwaith hyrwyddo a marchnata.

Gwnaeth Mentrau Iaith Cymru a nifer fawr o'r Mentrau Iaith rannu negeseuon ar eu cyfrifon Instagram a Twitter i godi ymwybyddiaeth o'r #PethauBychain Cymraeg thematig y mae unigolion yn ei wneud yn ddyddiol - roedd hyn yn cyd-blethu â dathliadau Gŵyl Dewi.

Dydd Miwsig Cymru
Cefnogwyd Ymgyrch Ddigidol Dydd Miwsig Cymru yn rhagweithiol ar y cyfryngau cymdeithasol trwy aildrydar a rhannu negeseuon am y diwrnod, ar wefan MIC ac yng Nghylchlythyr Cyswllt. Annogwyd y Mentrau Iaith i gynnal nifer o ddigwyddiadau i nodi'r achlysur ac amlinellir rhai ohonynt isod:

Cystadlaethau Jingl Cymraeg yng Nghwm Gwendraeth, Sesiwn Fysgio yng Nghastell-Nedd, gigiau ym mhob cwr o Gymru, datblygu rhestrau chwarae cerddoriaeth Gymraeg a llawer mwy.

C'mon Cymru
Cefnogwyd Ymgyrch C'mon Cymru yn ystod gemau rhyngwladol Cymru mewn chwaraeon (rygbi a phêl-droed yn bennaf) trwy rannu negeseuon ar y cyfrifon cymdeithasol, cynnwys eitemau ar ein gwefan, rhannu straeon yn y papurau bro a gweisg lleol yn ogystal ag annog y Mentrau Iaith yn lleol i dynnu lluniau gyda'r hashfyrddau ar lawr gwlad.

Diwrnod Shwmae Su'mae
Cydweithiwyd yn agos â Dathlu'r Gymraeg i gydlynu a hyrwyddo digwyddiadau Diwrnod Shwmae Su'mae. Datblygwyd a dosbarthwyd 8000 o daflenni gydag ymadroddion Cymraeg i ddysgwyr arnynt i'w defnyddio mewn caffis, tafarndai, siopau a swyddfeydd, profodd y taflenni hyn yn boblogaidd iawn gyda sylw yn y wasg yn ogystal â'r y teledu a'r radio.

Prosiectau

Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg
Bwriad y cynllun hwn yw codi'r niferoedd o bobl sy'n siarad Cymraeg yn eu swyddi, fydd yn ei dro yn arwain at godi statws y Gymraeg a chynyddu gwerth economaidd y Gymraeg fel sgil. Ceir yma rôl clir ac amlwg i'r Mentrau Iaith fel cyflogwyr ac fel cyrff cymunedol sy'n medru adnabod a gweithredu ar gyfleoedd i greu swyddi a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg newydd yn eu cymunedau, cyfleoedd fydd yn eu tro yn cynnal yr iaith.
Eleni rydym wedi comisiynu Prifysgol Aberystwyth i gynnal astudiaeth sgopio ar y cynllun a'r potensial o wireddu elfennau ohono drwy gronfeydd ESF ac ERDF, gydag adroddiad ar y gwaith hwn a chamau gweithredu i ddilyn yn gynnar flwyddyn nesaf.

Fe lwyddodd MIC i ddenu gwaith gwerth £20,000, ar sail Pro Bono gan Gwmni Sgema tuag at ddatblygu elfennau o'r Cynllun uchelgeisiol hwn. Fe wnaeth y gefnogaeth a chydweithio hwn arwain at sefydlu partneriaeth â Four Cymru i gynllunio cais cyflwyniadol (mynegi diddordeb) i'r gronfa Cynllun Datblygu Gwledig cenedlaethol a fydd yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn 2016-17.

Brywdr y Bandiau
Mae'r gystadleuaeth wedi sefydlu ei hun fel un o'r pwysicaf yng Nghymru yn y sîn gerddoriaeth. Cynhaliwyd y gystadleuaeth genedlaethol ar y cyd â C2 BBC Radio Cymru eto yn 2015-16. Llongyfarchiadau i Lost in Chemistry o'r Barri am ennill y gwobrau canlynol eleni:

- cytundeb i recordio Sesiwn i C2 BBC Radio Cymru
- perfformio ym Maes B, Eisteddfod Genedlaethol 2015
- erthygl tudalen lawn yn un o rifynnau'r cylchgrawn 'Y Selar'
- sesiwn lluniau hanner diwrnod efo ffotograffydd proffesiynol
- cynnig i chwarae mewn gigs a gwyliau'r Mentrau Iaith

Diolch i'r Mentrau Iaith am eu gwaith di-flino, i'r partneriaid ac yr artistiaid am gymryd rhan.

Ras yr Iaith 2016
Ar y cyd gyda'r Mentrau Iaith yng Nghonwy, Maldwyn, Ceredigion, Sir Benfro, Gorllewin Sir Gâr a Bro Dinefwr, mae MIC wedi cefnogi datblygiad Ras yr Iaith 2016, gen ddenu nawdd craidd gwerth £6000 ac nawdd preifat tuag at y prosiect cyffrous yma. Rydym yn bwriadu parhau i gydweithio'n agos â threfnwyr y Ras a'r Mentrau Iaith flwyddyn nesaf i'w cefnogi i lwyfannu'r prosiect, sef Ras hwyl dros y Gymraeg, mewn 25 cymuned, gan obeithio godi arian tuag at waith cymunedol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a denu miloedd o gyfranogwyr i gymryd rhan.

Partneriaethau Newydd
Fe luniwyd dau Memorandwm Cydweithio eleni gydag Urdd Gobaith Cymru a Mudiad Meithrin, sef dogfennau sy'n gosod allan ac yn cefnogi egwyddorion cydweithio rhwng y Mentrau a'r ddau bartner pwysig hwn. Yn barod rydym yn gweld bod y gwaith yn dwyn ffrwyth drwy weld enghreifftiau o gydweithio effeithiol yn digwydd ar draws Cymru.

Ymgynghoriadau
Mae rôl bwysig gan Mentrau Iaith Cymru i sicrhau llais i'r Mentrau yn nisgwrs polisi iaith a pholisi cyhoeddus. Rydym felly yn ymateb i ymgynghoriadau'n gyson ar ran y Mentrau Iaith sy'n sicrhau llais cenedlaethol cryf dros y Gymraeg a'r Mentrau.

Yn ystod 2015-2016 rydym wedi ymateb i'r ymgynghoriadau canlynol:

- Ymgynghoriad ar y Model Prentisiaethau yng Nghymru
- Ymgynghoriad Pwyllgor Plant y Phobl Ifanc y Cynulliad ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Cyllid y Cynulliad ar Gyllideb Arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17
- Ymgynghoriad ar newidiadau i TAN 20
- Ymgynghoriad ar Ddangosyddion Cynlluniau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol
- Ymgynghoriad ar Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan gydweithio â pharteriaid drwy Dathlu'r Gymraeg i bwysleisio'r angen am wasanaeth a chefnogaeth o safon cyfrwng Gymraeg
- Ymgynghoriad ar Fframwaith Olynol *Mwy na Geiriau*

Cynrychiolaeth ar Bwyllgorau Allanol
Mae Mentrau Iaith Cymru yn aelod ar amryw o bwyllgorau cenedlaethol a rhanbarthol. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i'r Mentrau Iaith feithrin perthynas gyda chyrff amrywiol, gyda rhai yn gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo polisïau mewn meysydd sydd yn ymwneud â'r Gymraeg ac adfywio cymunedol a thrwy hynny godi proffil y gwaith a gyflawnir gan y Mentrau Iaith. Mae cynrychiolaeth Mentrau Iaith Cymru ar y pwyllgorau/partneriaethau canlynol:

- Grŵp hyrwyddo'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru

- Grŵp llywio marchnata, Llywodraeth Cymru
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
- Dathlu'r Gymraeg
- NPLD

Ar lefel sirol mae gan y Mentrau Iaith gynrychiolaeth ar Bartneriaethau Plant, Partneriaethau Pobl Ifanc a Phwyllgorau Rheoli Cynghorau Gwirfoddoli Sirol ymysg eraill.

4. Ariannol

Crynodeb ariannol MIC

Mae trosiant Mentrau Iaith Cymru wedi cynyddu o £153,000 yn 2014-2015 i £199,830.





Gweler Atodiad 4 am yr adroddiad ariannol gan ein cyfrifwyr.

5. Casgliadau Clo

Mae 2015-2016 wedi bod yn flwyddyn o newidiadau cadarnhaol i'r Mentrau Iaith a Mentrau Iaith Cymru, gyda adnoddau ychwanegol gan Llywodraeth Cymru a llwyddiant yn denu arian i gynnal sawl prosiect arloesol gan y Mentrau Iaith yn golygu ein bod wedi medru gwneud mwy o wahaniaeth i fywydau pobol, ac yn medru annog mwy i wneud defnydd o'r Gymraeg.

Ond mae'r her yn parhau i sicrhau bod yr adnoddau sydd ei angen ganddo ni i newid agweddau, a chynyddu y nifer o bobol sydd yn dewis i ddefnyddio Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Ein bwriad yw parhau i gydweithio'n agos gyda'r Mentrau Iaith a phartneriaid eraill, a datblygu gallu Mentrau Iaith Cymru i gael effaith positif ar yr iaith Gymraeg yng nghymunedau Cymru.

6. Atodiadau

1. Y Mentrau Iaith
2. Cyfarwyddwyr Cwmni a Swyddogion Mentrau Iaith Cymru
3. Adroddiad Ariannol - Cyfrifon 2014-15

Atodiad 1

Mentrau Iaith 2014-2015

1. Menter Iaith Abertawe
2. Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy
3. Menter Bro Dinefwr
4. Menter Iaith Bro Morgannwg
5. Menter Iaith Bro Ogwr
6. Menter Brycheiniog a Maesyfed
7. Menter Caerdydd
8. Menter Iaith Casnewydd
9. Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot
10. Cered
11. Menter Iaith Conwy
12. Menter Cwm Gwendraeth Llanelli
13. Menter Gorllewin Sir Gar
14. Hunaniaith
15. Menter Iaith Maelor
16. Menter Maldwyn
17. Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful
18. Menter Iaith Môn
19. Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
20. Menter Iaith Sir Benfro
21. Menter Iaith Sir Caerffili
22. Menter Iaith Sir Ddinbych
23. Menter Iaith Sir y Fflint

Atodiad 3

Cyfarwyddwyr Cwmni Mentrau Iaith Cymru Cyf 2015-16

E Davis-Jones (wedi ymddeol 7 Gorffennaf 2015)
A England
O S Gruffydd
M Ll Davies
L G McLean
H M Thomas
P G Williams (wedi ymddeol 7 Gorffennaf 2015)
L C Jones
S E Lewis
G Stephen
E Maher

Swyddogion Cwmni Mentrau Iaith Cymru Cyf 2014-2015

Cadeirydd:	Meirion Davies
Is-gadeirydd:	Owain Gruffydd
Ysgrifennydd:	Iwan G. Williams
Trysorydd:	Lowri Jones